# Cofnodion Cyfarfod 3/4/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Eifion Roberts, Ken Edwards, Rhys Evans, Huw Symonds, Eric Williams, Eluned Jones, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Jacqueline Allen, Clare Mackintosh a Fiona Hopkins.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe gyfeiriodd iddi gynrychioli'r Cyngor Tref mewn cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar Fawrth 10fed i drafod Cynllun Creu Lle y Bala.
2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 6/3/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
   i. Tomen y Bala: Adroddwyd fod y Clwb Rotari yn parhau gyda'u bwriad i osod meinciau ar y Domen, ac hefyd gwnaed trefniadau i symud meinciau'r Cyngor Tref i'r Domen.
   ii. Cynllun Creu Lle – rhoddwyd adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 10fed i drafod y cynllun, pryd y rhannwyd gwybodaeth am wahanol brosiectau a datblygiadau yn y dref, a phryd y trafodwyd y posibilrwydd i fudiadau'r ardal gydweithio ar gynlluniau marchnata a hyrwyddo. Nodwyd fod bwriad i'r fforwm gyfarfod ddwy neu dair gwaith y flwyddyn.
   iii. Lloches Bws ger Cae Croes: Nodwyd na dderbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â phanel gwydr coll un o'r llochesi.
   iv. Cyfarfod gyda'r Heddlu: Adroddwyd fod bwriad i gyfarfod gyda'r Heddlu nos Fercher Ebrill 23ain. Nodwyd y gellid trafod yr angen am CCTV i'r dref.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a soniodd ei fod mewn trafodaeth ynglŷn â chyflwr rhai o balmentydd y dref. Dywedodd hefyd fod cyfle i'r Bala weithio tuag at statws 'dementia gyfeillgar' i'r dref. Llongyfarchodd y Clwb Hoci ar eu camp yn ail ddatblygu cae astro'r dref.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

6. **Is-bwyllgorau:**

Is bwyllgor asedau: Derbyniwyd gwybodaeth am y canlynol sydd angen sylw:

- Polyn fflag ger y Ganolfan Hamdden.
- Hysbysfyrddau'r dref.
- Y ciosg a'r deffib ger Canolfan Bro Tegid.
- Meinciau ger Siop DE, Siop Ria a Blaenddol.
- Toiledau cyhoeddus y merched ym maes parcio'r Plase.
- Diogelwch ar gopa Tomen y Bala.
- Palmentydd anwastad ger cofeb Tom Ellis.

Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Adroddwyd y bydd disgwyl i'r Cyngor Tref baratoi Adroddiad Bioamrywiaeth fel rhan o Adroddiad Blynyddol y cyngor am 2024/2025.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Derbyniwyd gwahoddiad i Agoriad Swyddogol Canolfan Bro Tegid, ac fe gytunwyd i ddewis cynrychiolwyr yng nghyfarfod mis mai o'r Cyngor Tref.
Cytundeb Llwybrau Cyhoeddus: Cafwyd cyfle i addasu manyleb y cytundeb cynnal llwybrau am y cyfnod 2025-2028, ac fe gytunwyd nad oes angen cynnwys y llwybr rhif 4 ger y Ganolfan Hamdden.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio i addasu cynlluniau'r gwaith yn ardal Llyn Tegid. Cytunwyd i gefnogi'r cais.
Derbyniwyd hefyd gais i newid Trem Tudur i fod yn dy aml feddiannaeth. Cytunwyd i wrthwynebu'r cais hwn ar y sail y byddai'n rhoi pwysau ar draffig ac ar drefniadau parcio yn y rhan hon o'r dref, y gallai'r defnydd arfaethedig greu aflonyddwch i'r cymdogion, a bod y datblygiad yn effeithio ar ddwysedd defydd yr adeilad.

*8.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £751.89 yn y cyfri cyfredol, £26,939.71 yn y cyfri cadw a £388.60 yng Nghronfa'r Maer.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog a threth incwm y Clerc, ac anfoneb Clwb Pêl-droed y Bala am hysbyseb ger y cae.
- **iii.** Derbyniwyd diolchiadau am gymorth ariannol y cyngor gan Cantref, Urdd Gobaith Cymru, Llen y Llannau a Theatr Derek Williams.
- **iv.** Cytunwyd i gyfrannu £100 i Sioe Arddio'r Bala o Gronfa Maer y Dref.
- **v.** Derbyniwyd gwybodaeth am Rybudd Archwiliad Llawn am 2024/2025.

9. **Gohebiaeth:**

- i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd Heol y Berwyn ar gau am gyfnod o 8 mis oherwydd rhesymau diogelwch yn ystod gwaith adeiladau hanfodol.
- ii) Arolwg Etholaethau Senedd Cymru: Derbyniwyd yr adroddiad terfynol yn nodi'r etholaethau newydd.
- iii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd adroddiad ymchwil i rôl cynghorau tref a chymuned.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**
Tynnwyd sylw cyngor fod ceir yn goryrru ar flaendraeth Llyn Tegid, a bod angen dod a hyn i sylw'r heddlu yn y cyfarfod ar Ebrill 23ain.
Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod coed wedi eu torri ger Llwybr y Ddyfrdwy, a sbwriel difrifol ger swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod angen dod a hyn i sylw Cyfoeth Naturiol Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 1 Mai 2025.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)